

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX
Dydd Mawrth, 21ain Tachwedd, 2017 am 2.00 pm

Dolen gyswllt: Emma Wilkins (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Gwener, 17 Tachwedd 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i UnedBusnesGweithredolaRheoleiddiol@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Derbyn cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2017.
Tudalennau 5-14

3. ARDOLL SEILWAITH CYMUNEDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Cynllunio ac Adfywio sy'n ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau o'r Cabinet ar gyfer cynnwys yr Adroddiad Monitro Blynyddol ynghylch yr Ardoll Seilwaith Cymunedol a diwygiadau i restr Rheoliad 123.

Tudalennau 15-30

4. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT: RHAGLEN WEITHREDU'R RHAGLEN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT RHANBARTHOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am raglen weithredu'r rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Rhanbarthol.

Tudalennau 31 - 174

5. BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus – sy'n rhoi adroddiad blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2016/17 i'r Aelodau.

Tudalennau 175 - 204

6. PARC COFFA YNYSANGHARAD – MEYSYDD CHWARAE CYMRU – CAEAU CANMLWYDDIANT

Derbyn papur trafod Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer ymrwymo i weithred gyflwyno a fyddai'n rhoi statws 'Caeau Canmlwyddiant' – gan yr elusen Meysydd Chwarae Cymru (Fields in Trust) – i Barc Coffa Ynysangharad.

Tudalennau 205-210

7. CANOLFAN HAMDDEN CWM RHONDDA FACH – CYFLEOEDD BUDDSODDI AC AD-DREFNU – YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd – sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am yr ymatebion a ddaeth i law trwy'r ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r materion 'Cyfleoedd Buddsoddi ac Ad-drefnu' yng Nghanolfan Hamdden Cwm Rhondda Fach.

Tudalennau 211 - 244

8. ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR – 30 MEDI 2017 (CHWARTER 2)

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Aelodau am gyflawniad y Cyngor yn ystod chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon (hyd at 30 Medi 2017) o ran materion ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

Tudalennau 245 - 258

9. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

10. AILDDATBLYGU CANOLFAN SIOPA DYFFRYN TAF – ACHOS BUSNES

Derbyn adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n amlinellu amcangyfrif o gyfanswm cost Cynllun Ailddatblygu Canolfan Siopa Dyffryn Taf a'r pecynnau ariannu arfaethedig ar gyfer y cynllun.

Tudalennau 259 - 266

11. CYNON VALLEY WASTE DISPOSAL COMPANY LIMITED AC AMGEN RHONDDA LIMITED – CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol, sy'n gyfle i'r Aelodau edrych ar y datganiadau ariannol ac yn rhoi cyfarwyddiadau pleidleisio i'r Swyddogion, cyn ystyried yr adroddiad yn y Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol sydd ar ddod.

Tudalennau 267 - 326

12. MATERION BRYD

Trafod unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: A Morgan (Chair)
M Webber (Vice-Chair)
R Bevan
A Crimmings
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) J. Rosser
R. Lewis
(Mrs) C. Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr y Iechyd a Diogelwch y Cyhoed